

Asesiad Strwythuredig 2022 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Blwyddyn archwilio: 2022

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3260A2022

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fel rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/i'w gyflawni yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar yr economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn eu darparu, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw enw cyfunol anstatudol Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau ei hun.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2022

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na gweithiwr arall yn rhinwedd eu swydd unigol, nac i unrhyw drydydd parti mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os bydd y ddogfen hon yn derbyn cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth drin ceisiadau sy'n ddisgwyliedig gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiad ynghylch datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Adroddiad cryno	
Ynglŷn â'r adroddiad hwn	4
Negeseuon allweddol	4
Argymhellion	5
Adroddiad manwl	
Trefniadau llywodraethu	8
Trefniadau cynllunio strategol	19
Rheoli adnoddau ariannol	25
Rheoli'r gweithlu, adnoddau digidol, yr ystâd, ac asedau ffisegol eraill	29
Atodiadau	
Atodiad 1 – Dull archwilio	33
Atodiad 2 – Ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio	36

Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

- 1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig 2022 yr Archwilydd Cyffredinol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd). Nod ein gwaith asesu strwythuredig yw helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.
- 2 Cynhaliwyd ein gwaith Asesu Strwythuredig yn 2022 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19. Yn ogystal â mynd i'r afael â'r heriau uniongyrchol a gyflwynwyd gan yr argyfwng iechyd cyhoeddus roedd cyrff iechyd hefyd yn ceisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau i ymateb i'r niferoedd sylweddol o bobl sy'n aros am driniaeth a gwella iechyd y boblogaeth. Mae angen i gyrff y GIG a'u Byrddau gael trefniadau llywodraethu corfforaethol cadarn a all roi sicrwydd i'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, diogel ac ymatebol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.
- 3 Mae prif ffocws y gwaith wedi bod ar drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn economaidd, gan ganolbwyntio'n benodol ar drefniadau llywodraethu'r sefydliad; trefniadau cynllunio strategol; trefniadau rheoli ariannol; a threfniadau ar gyfer rheoli'r gweithlu, asedau digidol, yr ystâd, ac asedau ffisegol eraill. Manylir ar y dull a fabwysiadwyd gennym i gyflawni ein gwaith yn gryno yn **Atodiad 1**.
- 4 Rydym hefyd wedi darparu diweddariadau ar gynnydd yn erbyn argymhellion a nodwyd mewn adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol.

Negeseuon allweddol

- 5 Ar y cyfan, **canfuom er bod y Bwrdd Iechyd yn cryfhau ei drefniadau llywodraethu, mae lle i'w gwella ymhellach i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol y mae angen iddo fynd i'r afael â nhw yn y tymor byr a'r tymor canolig.**
- 6 Mae trefniadau'r Bwrdd a'r pwyllgor yn cryfhau, ond bydd angen eu gwella ymhellach er mwyn galluogi'r Bwrdd Iechyd i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r heriau ariannol a pherfformiad cynyddol y mae'n eu hwynebu. Er ei bod yn ymddangos bod newidiadau diweddar i strwythurau pwyllgorau yn arwain at gydbwysu llwyth gwaith, mae lle i fireinio maint a threfn agendâu a chyfoethogi papurau i sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n fwy.
- 7 Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu mwy o sefydlogrwydd arwain ar lefel weithredol drwy benodiadau parhaol i swyddi allweddol. Mae hefyd yn datblygu ac yn gwreiddio'n briodol ei systemau sicrwydd, yn enwedig sicrwydd ei fwrdd, rheoli risg, a fframweithiau canlyniadau. Mae'r fframwaith canlyniadau yn arbennig yn

dechrau helpu'r Bwrdd Iechyd i fonitro darpariaeth wrthrychol strategol yn well. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i gryfhau'r adrodd am berfformiad yn ymwneud ag effaith ei weithredoedd gwella.

- 8 Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu risgiau cynyddol yn ymwneud â gofal heb ei drefnu, gofal wedi'i gynllunio, perfformiad canser a heriau ariannol cynyddol. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd adolygu ei Strategaeth Dyfodol Clinigol ac yn sail i gynlluniau i sicrhau bod ei fodolau gwasanaeth presennol ac yn y dyfodol yn gynaliadwy ac yn sbarduno gwelliant. Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull da o gynllunio, gan ennyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru o'i Gynlluniau Tymor Canolig Integredig yn gyson. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ymgysylltu'n well â rhanddeiliaid ehangach i helpu i gynllunio atebion ar y cyd i rai o'r heriau anodd y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu ar hyn o bryd, yn enwedig o ran llif cleifion a'u rhyddhau.
- 9 Mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau cydbwysedd ariannol hyd yma wedi bod yn dda. Fodd bynnag, mae pwysau costau cynyddol ochr yn ochr â diffyg cyflawni arbedion wedi arwain at newid sylweddol yn y sefyllfa ariannol a ragwelir ar gyfer 2022-23, gyda'r Bwrdd Iechyd bellach yn adrodd diffyg ar ddiwedd y flwyddyn (o tua £37 miliwn i £49 miliwn) yn hytrach na safle cytbwys yn y flwyddyn. Mae'r dirywiad hwn hefyd yn debygol o gael effaith ganlyniadol mewn blynyddoedd i ddod ar gyflawnadwyedd sefyllfa ariannol tair blynedd wedi'i mantoli yn ddiffyg sylfaenol cynyddol, a allai effeithio ar ei allu i baratoi cynllun tymor canolig integredig cytbwys ar gyfer 2023-26. Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dangos rheolaethau ariannol, monitro, a threfniadau adrodd effeithiol. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddo ddarparu craffu a her fwy cadarn ar ei gyllid a chryfhau ei fesurau adfer ariannol a'i drefniadau atebolrwydd ariannol ar lefelau uwch.
- 10 Mae'r Bwrdd Iechyd yn blaenoriaethu llesiant ac yn ceisio deall sut mae staff yn teimlo i helpu i lywio'i fentrau gwella. Fodd bynnag, mae ffocws cyfyngedig o hyd ar faterion gweithlu a llesiant ar lefel Bwrdd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adnewyddu ei strategaeth ddigidol, ond mae lle i wella ansawdd adrodd ar faterion digidol er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni'r nodau disgwylidiedig a galluogi gwella gwasanaethau ehangach. Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaeth ystadau a threfniadau llywodraethu priodol i'w goruchwyllo, ond mae'r cyllid cyfalaf sydd ar gael yn bryder, ac mae angen cryfhau ei reolaeth o asedau ffisegol.

Argymhellion

- 11 Manylir ar argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn yn **Arddangosyn 1**. Crynhoir ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion hyn yn **Atodiad 2**.

Arddangosyn 1: argymhellion 2022

Argymhellion

Rheoli agendâu/cyfarfodydd

- A1 Mae agendâu'r Bwrdd a Phwyllgorau yn peri i rai cyfarfodydd redeg yn hwyr. Felly, dylai'r Bwrdd lechyd adolygu agendâu'r Bwrdd a phwyllgorau i sicrhau bod modd ymdrin â busnes y cyfarfod yn yr amser sydd ar gael a hefyd caniatáu digon o graffu a thrafodaeth.
-

Ansawdd Gwybodaeth i'r Bwrdd a'r pwyllgorau

- A2 Nid yw'r wybodaeth a gyflwynir i'r Bwrdd a phwyllgorau bob amser yn rhoi'r sicrwydd gofynnol. Mae rhai papurau'n rhy hir, manwl, a thechnegol. Mae adroddiadau ategol yn parhau i ddilyn fformat SBAR, ond mae amrywiaeth yn eu defnydd. Felly dylai'r Bwrdd lechyd ddatblygu hyfforddiant ac arweiniad ar gyfer staff y Bwrdd lechyd ynghylch y disgwyliadau adrodd ac ansawdd yr wybodaeth a gyflwynir i'r Bwrdd a'i bwyllgorau.
-

Straeon Cleifion a Staff

- A3 Mae defnydd cyfyngedig o straeon cleifion a staff ar y Bwrdd. Dylai'r Bwrdd lechyd ystyried sut y gall gynyddu a sicrhau'r budd mwyaf o straeon cleifion a staff mewn cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau i helpu i ganoli a rhoi pwyslais i gyfarfodydd ar y pethau sydd bwysicaf, a helpu i driongli'r wybodaeth hon ag eitemau ar y agenda ffurfiol.
-

Adrodd ar Berfformiad

- A4 Nid yw'r Adroddiad Perfformiad Integredig wedi newid ers sawl blwyddyn, ac ar hyn o bryd nid yw'n mynegi effaith gweithredoedd gwella'r gorffennol a pharhaus yn glir. Dylai'r Bwrdd lechyd gryfhau'r adroddiad hwn i ddarparu mwy o wybodaeth i'r Bwrdd a phwyllgorau ar y camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â thanberfformio neu effaith camau blaenorol a gymerwyd.

Argymhellion

Strategaeth Dyfodol Clinigol a Chynllun Clinigol Hirdymor

- A5 Mae'r Strategaeth Dyfodol Clinigol wedi aros ar waith ers dros ddegawd, ond mae'r pwysau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu wedi newid yn sylweddol yn yr amser hwn. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd:
- a. adolygu'r Strategaeth Dyfodol Clinigol i sicrhau ei bod yn helpu i lunio modelau gwasanaeth cynaliadwy yn ariannol a chlinigol; ac
 - b. datblygu cynllun clinigol hirdymor manwl sy'n sail i'r Strategaeth Dyfodol Clinigol.

Gweithio gyda phartneriaid ehangach i ddatblygu cynllun tymor canolig integredig

- A6 Bu'r Bwrdd Iechyd yn trafod cynlluniau gyda Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Iechyd Cymuned wrth ddatblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022-25, ond roedd ymgysylltu cyfyngedig â phartneriaid ehangach. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd gynnwys partneriaid ehangach yn well i helpu ar y cyd i ddatblygu atebion i heriau gwasanaeth cynyddol, yn enwedig lle mae gwasanaethau'n rhyngweithio.

Cynlluniau Dirprwyo

- A7 Mae sefyllfa ariannol ddirywiol ac arbedion dirywiol y Bwrdd Iechyd yn dangos bod angen atebolrwydd cryfach o ran perfformiad ariannol a chyflawni. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ei Gynllun Dirprwyo er mwyn sicrhau ei fod yn amlinellu atebolrwydd dirprwyedig yn gryfach ar gyfer y sefyllfa gyllidebol a chyflawni arbedion ariannol ar lefelau gweithredol ac is.

Adroddiad manwl

Trefniadau llywodraethu

- 12 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn rhoi ein barn ar drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar:
- effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau;
 - i ba raddau y mae dylunio sefydliadol yn cefnogi llywodraethu da; a
 - systemau sicrwydd allweddol.
- 13 Darperir manylion y cynnydd a wnaed ar argymhellion agored a wnaed rhwng 2017 a 2021 yn ymwneud â threfniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn **Arddangosyn 2**.
- 14 Canfuwyd **er bod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i wella effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu, fod cyfleoedd yn bodoli i wella'r trefniadau hyn ymhellach i fynd i'r afael â risgiau allweddol a phwysau gweithredu.**

Effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau

- 15 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn cynnal eu busnes yn effeithiol ac yn cefnogi llywodraethu da. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:
- a yw'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn dangos lefelau priodol o dryloywder cyhoeddus;
 - a gynhelir cyfarfodydd yn briodol wedi'u cefnogi gan Gynlluniau Dirprwyo clir, Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, a Chofrestrau Buddiannau;
 - a oes strwythur pwyllgor priodol sy'n gweithio'n dda o dan y Bwrdd;
 - a yw'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn derbyn yr wybodaeth gywir, gan gynnwys barn staff a defnyddwyr gwasanaeth; ac
 - a oes tystiolaeth o hunan-adolygu digonol gan y Bwrdd a'i bwyllgorau.
- 16 Canfuom fod **trefniadau'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn cryfhau ond bydd angen eu mireinio ymhellach er mwyn galluogi'r Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â'r heriau cynyddol y mae'n eu hwynebu mewn modd effeithiol.**
- 17 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos lefelau rhesymol o dryloywder cyhoeddus. Cyflwynodd drefniadau cyfarfod hybrid ar gyfer ei gyfarfodydd Bwrdd, gan gynnal pobl wyneb yn wyneb ac yn rhithwir. Gall aelodau o'r cyhoedd arsylwi'r cyfarfod yn rhithwir drwy'r ffrwd fyw, er bod cynlluniau i ganiatáu presenoldeb y cyhoedd wyneb yn wyneb o fis Tachwedd 2022. Er bod y dull hybrid yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i aelodau'r bwrdd, nododd ein harsylwadau nad ydynt mor ddidrafferth â chyfarfodydd wyneb yn wyneb a chyfarfodydd cwbl rithwir. Er enghraifft, roedd achosion lle nad oeddem yn gallu gweld neu glywed staff yn glir yn cyflwyno adroddiadau ar gyfer eitemau agenda penodol ac ar brydiau, nid oedd yr aelodau'n

defnyddio camera eu gliniadur wrth siarad. Mae recordiadau o gyfarfodydd y Bwrdd ar gael yn gyhoeddus yn fuan ar ôl pob cyfarfod.

- 18 Mae cyfarfodydd pwyllgor yn parhau i gael eu cynnal yn rhithwir ac yn effeithiol. Er bod cofnodion cyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi ar ôl iddynt gael eu cadarnhau yn y cyfarfod dilynol, mae'r amserlenni hyn yn cyfyngu, i raddau, fynediad amserol y cyhoedd i gofnodion busnes pwyllgorau. Felly mae'r Bwrdd lechyd yn archwilio opsiynau ar gyfer ffrydio cyfarfodydd pwyllgorau yn fyw neu gyhoeddi cofnodion y cyfarfodydd i helpu i wella tryloywder cyhoeddus busnes.
- 19 Nod y Bwrdd lechyd yw cyhoeddi agendâu a phapurau ar ei wefan wythnos cyn y cyfarfodydd. Fodd bynnag, caiff papurau eu diweddarau'n achlysurol ar fyr rybudd, sy'n ei gwneud yn anodd i aelodau'r Bwrdd a rhanddeiliaid adolygu'r holl bapurau ymlaen llaw. Mae'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol yn datblygu dangosyddion perfformiad allweddol i olrhain a mynd i'r afael â pherfformiad yn y maes hwn. Mae'r Bwrdd lechyd yn cyfyngu ar y defnydd o gyfarfodydd preifat i drafod eitemau sensitif yn unig. Ond pan fo'r rhain yn cael eu cynnal, mae papurau cyhoeddus yn cynnwys crynodeb o fusnes i'w ystyried yn breifat.
- 20 Mae'r Bwrdd lechyd wedi mabwysiadu'r model Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol gan gynnwys y model Cynllun Dirprwyo, ond mae cyfleoedd i adolygu'r Cynllun Dirprwyo i gryfhau atebolrwydd ariannol a sicrhau eu bod yn parhau'n addas i'r diben (rydym yn trafod hyn ymhellach ym mharagraff 74) Nid yw'r Bwrdd lechyd yn bodloni ei ofynion yn ffurfiol i gynnal Fforwm Gofal lechyd Proffesiynol. Yn hytrach, mae'r Bwrdd yn ymgysylltu â gweithwyr clinigol proffesiynol trwy ei Gyfarwyddwyr Gweithredol a'i grwpiau rheoli presennol. Mae'r Bwrdd lechyd yn bwriadu adolygu'r trefniadau hyn yn ddiweddarach yn 2022-23.
- 21 Mae polisïau'r Bwrdd lechyd ar safonau cynnal busnes, sy'n cynnwys Datganiadau Buddiant, Derbyn Rhoddion, a Lletygarwch, yn gyfredol. Mae'r broses ar gyfer datgan buddiannau wedi'i sefydlu'n dda mewn cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau. Mae'r Bwrdd lechyd yn cadw cofrestr o fuddiannau, sydd ar gael ar ei wefan. Fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf o ddatganiadau yn gyfredol, mae angen diweddarau rhai. Mae polisïau ehangach y Bwrdd lechyd i gefnogi prosesau effeithiol o gynnal busnes yn gyfredol ar y cyfan, ond mae angen diweddarau rhai, fel ei bolisïau e bost a chyfryngau cymdeithasol.
- 22 Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2022, cytunodd y Bwrdd i ddiwygio ei strwythur llywodraethu ymhellach er mwyn cydbwysu'r pwyslais yn well rhwng strategaeth, cyflawni, perfformiad, a diwylliant. Er bod y trefniadau hyn yn dal i fod yn gymharol newydd, mae'n ymddangos eu bod yn gweithio'n dda drwy leihau'r risg y bydd agendâu yn gorgyffwrdd, gan gadw'r agendâu yn hylaw, a sicrhau bod gan bob pwyllgor sail ffurfiol. Yn benodol, mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg, a Sicrwydd newydd bellach yn canolbwyntio ar faterion archwilio a sicrwydd craidd, ac mae gan y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad newydd gylch gwaith clir ar gyfer cyllid, perfformiad, a gwasanaethau digidol. Mae'r Pwyllgor Partneriaethau, Poblogaeth, lechyd a Chynllunio yn bwyllgor ffurfiol bellach ond nid oedd ei ragflaenydd (y Grŵp Strategaeth, Cynllunio, Partneriaethau a Llesiant). Gwnaeth aelodau'r Bwrdd

sylwadau cadarnhaol am y newidiadau i'r strwythur llywodraethu, gan nodi bod llwyth gwaith wedi lleihau i rai o'r pwyllgorau a bod llif cliriach bellach o sicrwydd ar gyfer agweddau ar fusnes y Bwrdd Iechyd, fel llywodraethu gwybodaeth a TGCh.

- 23 Mae cadeiryddion pwyllgorau yn cymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd gosod agenda, gan gefnogi cytundeb ar y cyd wrth ddewis eitemau i'w trafod mewn cyfarfodydd. Mae gan y Bwrdd a'r pwyllgorau gylch gorchwyl cyfredol, cadw logiau gweithredu cynhwysfawr, a rhaglenni blynyddol o raglenni busnes neu flaenraglenni gwaith. Gwelsom gysondeb yn y ffordd y mae agendâu pwyllgor yn cael eu ffurfweddu, gydag eitemau ar gyfer penderfyniad a sicrwydd wedi'u gosod yn gyntaf, ac yna eitemau i'w hystyried, ac yn olaf eitemau i'w nodi a gwybodaeth. Mae agendâu hefyd yn cynnwys amseroedd dangosol i helpu gwallt cadeiryddion pwyllgorau i reoli'r cyfarfod a chynnal ffocws, er bod rhai cyfarfodydd yn dal i fynd dros eu hamser (**Argymhelliad 1**).
- 24 Mae cyfarfodydd bwrdd a phwyllgorau yn parhau i gael eu rheoli'n dda ar y cyfan, gan alluogi trafodaeth dda ar faterion allweddol ac annog cyfraniadau gan bawb. Mae Aelodau Annibynnol yn parhau i ymgysylltu a chymryd rhan lawn mewn cyfarfodydd a darparu craffu gweddol effeithiol a chwestiynu'r wybodaeth a gyflwynir. Er hynny, mae lle i Aelodau Annibynnol ddarparu pwyslais cryfach ar ba wahaniaeth sy'n cael ei wneud ac i gryfhau eu her ar y risgiau a allai effeithio ar gyflawni cynlluniau'r Bwrdd Iechyd yn llwyddiannus. Bu penodiadau newydd i'r Bwrdd, ac mae'n dod yn fwy cydlynus. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno trefniadau anwytho lleol ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol ac yn gofyn am adborth gan ddechreuwy'r newydd i helpu i fireinio'r trefniadau hynny (**gweler Arddangosyn 2 A1, 2018**).
- 25 Mae'r Bwrdd wedi hunanasesu ei effeithiolrwydd gan ddefnyddio 'Fframwaith Gwella wedi Arwain yn Dda y GIG <<https://www.england.nhs.uk/well-led-framework/>>, a chafodd y canlyniadau eu hadrodd i gyfarfod y Bwrdd ym mis Mai 2022. Rhoddodd y Bwrdd sgôr 'ambr-gwyrdd' i'w hun¹ ac mae'n symud ymlaen â'r camau gwella a nodwyd. Mae cyflwyno'r strwythur llywodraethu wedi golygu nad yw'r Pwyllgorau wedi cwblhau adolygiad o'u heffeithiolrwydd o hyd. Fodd bynnag, mae yna gynlluniau i gwblhau'r gwaith hwn yn y flwyddyn ariannol hon.
- 26 Mae'r Bwrdd yn parhau i gynnal sesiynau datblygu a briffio i'w aelodau ac wedi nodi'r angen i ganolbwyntio ar effeithiolrwydd y bwrdd wrth symud ymlaen. Er ei fod wedi caffael cefnogaeth datblygiad y bwrdd gan Brifysgol De Cymru i wella effeithiolrwydd y Tîm Gweithredol, mae angen iddo symud ymlaen â gwaith yn ymwneud â datblygu Aelodau Annibynnol ac effeithiolrwydd y Bwrdd yn gyffredinol.
- 27 Nid yw gwybodaeth a gyflwynir i'r Bwrdd a phwyllgorau, er ei fod yn dda fel arfer, bob amser yn darparu lefel briodol o sicrwydd. Nodwn geisiadau gan aelodau pwyllgor yn ystod cyfarfodydd am ragor o wybodaeth er mwyn cael mwy o sicrwydd. Yn gyffredinol, mae papurau'n mynd yn fwy cryno, ond dywedodd

¹ Diffiniad sgôr ambr-gwyrdd yw 'yn bodloni disgwyliadau yn rhannol, ond yn hyderus yng ngallu'r rheolwyr i gyflawni perfformiad gwyrdd o fewn amserlen resymol'.

Aelodau Annibynnol wrthym, er y bu rhywfaint o welliant, fod rhai papurau'n rhy hir, manwl, a thechnegol o hyd. Mae adroddiadau ategol yn parhau i ddilyn fformat SBAR², ond mae'r angen i ddisgrifio'r broses adolygu/cymeradwyo yn well cyn cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau ac mae rhywfaint o amrywiaeth o hyd yn eu defnydd sy'n awgrymu bod angen hyfforddiant ar awduron adroddiadau.

(Argymhelliad 2)

- 28 Canfu ein Hadroddiad Llywodraethu Ansawdd diweddar a gwaith Asesu Strwythuredig eleni ddefnydd cyfyngedig o straeon cleifion a staff yn y Bwrdd **(Argymhelliad 3)**. Mae teithiau cerdded aelodau'r Bwrdd hefyd yn darparu deallusrwydd gwerthfawr o'r rheng flaen er i Aelodau Annibynnol fynegi pryder ynghylch natur ragnodol y dull cyfredol.

Dylunio sefydliadol

- 29 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae strwythur sefydliadol y Bwrdd lechyd yn cefnogi llywodraethu effeithiol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:
- a yw cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn glir, ac a oes ganddynt bortffolios teg a chytbwys o waith;
 - a oes eglurder ynglŷn â rôl Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol, ac adnoddau digonol ar gael i gefnogi gwaith y Bwrdd a'i bwyllgorau; ac
 - a yw'r strwythur sefydliadol yn cefnogi llywodraethu effeithiol ac yn hwyluso gweithio system gyfan.
- 30 Canfuom fod **trfniadau arwain y Bwrdd lechyd yn dechrau sefydlogi, ac y gwnaed newidiadau cadarnhaol i rôl Ysgrifennydd y Bwrdd. Mae strwythurau rhanbarthol wedi'u hadnewyddu, ond nid yw'n glir ar hyn o bryd a yw'r newidiadau hyn yn sicrhau'r manteision a fwriadwyd.**
- 31 Er bod y Bwrdd lechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i sefydlogi ei drefniadau arwain drwy benodi Prif Swyddog Gweithredol parhaol, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, a Chyfarwyddwr Nyrsio, mae ganddo nifer o bobl dros dro o hyd mewn swyddi gweithredol allweddol eraill gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cyllid a Chaffael, Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedau, a'r Cyfarwyddwr Cynllunio. Ar ben hynny, mae Cyfarwyddwr Gweithredol lechyd Cyhoeddus a Phartneriaethau Strategol hefyd yn bwriadu ymdeol ym mis Tachwedd 2022. Mae'r Bwrdd lechyd yn ceisio recriwtio'n barhaol i nifer o'r swyddi allweddol hyn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Dylai'r penodiadau parhaol hyn ddod â rhywfaint o sefydlogrwydd arweinyddiaeth y mae mawr ei angen i ddarparu cyfeiriad clir i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau dybryd iawn y mae'n eu hwynebu ar hyn o bryd **(gweler Arddangosyn 2 A4, 2021)**.
- 32 Yn ogystal â'r newidiadau uchod, mae cylch gwaith Ysgrifennydd y Bwrdd wedi'i ehangu i gwmpasu datblygiad llywodraethu corfforaethol ehangach a

² SBAR – Sefyllfa, Cefndir, Asesu ac Argymhelliad yn ddull o ysgogi adroddiadau sy'n canolbwyntio ar welliant.

chyfrifoldebau Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth. Cytunwyd ar rôl y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth ym mis Mawrth 2022 a dylai'r cylch gwaith ehangach hwn gefnogi datblygiadau llywodraethu yn well yn ogystal â sicrhau bod y trefniadau llywodraethu wedi'u gwreiddio'n effeithiol. Cefnogir y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol gan Dîm Cymorth Llywodraethu Corfforaethol, sy'n darparu cymorth llywodraethu a gweinyddu pwyllgorau effeithiol o ddydd i ddydd (**gweler Arddangosyn 2 A3, 2021**).

- 33 Gwnaeth y Bwrdd lechyd sawl newid i'w strwythurau rhanbarthol yn ystod mis Mai 2022 yn dilyn adborth gan staff a newidiadau i'r system a wnaed yn sgil pandemig Covid-19 a Strategaeth Dyfodol Clinigol. Mae newidiadau i strwythurau rhanbarthol yn cynnwys gostyngiad yng nghylch gwaith yr Is-adran Gofal Cofrestredig a chreu Is-adran Gwasanaethau Cymorth Clinigol newydd. Mae'r Bwrdd lechyd hefyd wedi dod i ben â'i ymgynghoriad â staff ar newidiadau arfaethedig i'w Is-adran Gofal Heb ei Drefnu. Mae'r newidiadau hynny yn cynnwys creu Is-adran Feddygaeth newydd (sy'n ymgorffori Meddygaeth a Meddygaeth Acíwt) ac Is-adran Gofal Brys newydd (sy'n ymgorffori'r Adran Achosion Brys, Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys 24/7, a Chanolfan Llif.) Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i wneud sylwadau ar effeithiolrwydd y trefniadau strwythurol newydd.

Systemau sicrwydd

- 34 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n goruchwyllo, craffu a herio risgiau sefydliadol, perfformiad, ac ansawdd gwasanaethau. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:
- a oes Fframwaith Sicrwydd Bwrdd (BAF) effeithiol ar waith, sy'n cael ei adolygu'n weithredol ac sy'n eiddo i'r Bwrdd;
 - a yw'r BAF wedi'i seilio ar system briodol ar gyfer rheoli risgiau a pherfformiad; gan oruchwyllo ansawdd a diogelwch gwasanaethau; a thrafod gwybodaeth mewn modd diogel; ac
 - a gymerir camau effeithiol i fynd i'r afael â chanfyddiadau archwilio ac adolygu ac argymhellion.
- 35 Canfuom, **er bod y Bwrdd lechyd yn parhau i ddatblygu a gwreiddio ei systemau sicrwydd, mae lle i gryfhau'r trefniadau hyn ymhellach i sicrhau bod risgiau a heriau perfformiad sylweddol yn cael sylw llawn.**
- 36 Cyflwynodd y Bwrdd lechyd ei Fframwaith Sicrhau Bwrdd (BAF) ym mis Hydref 2021, sy'n manylu ar ei brif risgiau (sgorio 15 ac uwch). Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i alinio'r BAF i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a Fframwaith Canlyniadau newydd y Bwrdd lechyd. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg, a Sicrwydd yn derbyn diweddariadau cynnydd, ond nid yw'r Bwrdd wedi derbyn y BAF yn ffurfiol ers iddo gael ei gyflwyno. Mae angen gwneud bellach i sicrhau bod y BAF yn dod yn offeryn effeithiol, sy'n eiddo'n llawn i'r Bwrdd, i fynd i'r afael â

bylchau sicrwydd, llunio busnes y Bwrdd a phwyllgorau, a llywio datblygiadau llywodraethu ehangach.

- 37 Mae Strategaeth Rheoli Risg a Chynllun Gwireddu'r Bwrdd lechyd yn dechrau symud ymlaen bellach. Y llynedd, gwnaethom adrodd ar y buddsoddiad cyfyngedig a wnaed gan y Bwrdd lechyd i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r dull rheoli risg. Mae rhai o'r materion capasiti hynny wedi'u datrys i helpu i weithredu'r cynllun 'ar garlam'. Caiff yr holl risgiau strategol eu dyrannu i berchennog risg a phwyllgor sicrwydd a'u hadolygu'n weithredol a'u herio gan aelodau'r Pwyllgor sy'n helpu i lywio'r broses o osod yr agenda.
- 38 Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, ochr yn ochr â'r Adroddiad Risg Strategol³, wedi gwella (**gweler Arddangosyn 2 A2, 2019**). Fodd bynnag, gwelsom graffu, her, a thrafodaeth gyfyngedig ar risgiau mewn rhai cyfarfodydd Bwrdd. O ystyried maint y risgiau perfformiad, cyllid ac ansawdd sy'n wynebu'r Bwrdd lechyd, mae angen i'r Bwrdd gynyddu ei bwyslais ar y graddau y mae'r camau sy'n cael eu cymryd yn lleihau'r risgiau sy'n cael eu hwynebu.
- 39 Mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i brofi pwysau gwasanaeth sylweddol wrth i berfformiad ddirywio yn erbyn rhai mesurau perfformiad allweddol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:
- twf bob mis yn niferoedd cyffredinol y bobl sy'n aros am ofal dewisol a thwf mewn amseroedd aros hir, h.y. dros 36 wythnos;
 - dirywiad mewn perfformiad gofal heb ei drefnu gan gynnwys amseroedd ymateb 'Categori A' ambiwlansys o fewn 8 munud, cynyddu oedi wrth drosglwyddo ambiwlansys, a chynyddu amseroedd aros hir mewn adrannau brys;
 - dirywiad mewn mynediad at driniaeth amserol ar gyfer canser yn erbyn y targed o 62 diwrnod gyda phryderon ynghylch mynediad at driniaeth ar gyfer lleoliadau tiwmor Wroleg, Gynaecoleg, y Fron, a Gastroberfeddol Isaf; a
 - thwf yn nifer y cleifion sy'n aros am apwyntiad cleifion allanol dilynol a thwf yn y niferoedd sy'n aros dros ddwywaith yn hirach nag y dylent (h.y. oedi o 100%).

Er bod y Bwrdd lechyd wedi cyflwyno dangosfwrdd perfformiad newydd ym mis Gorffennaf 2022, mae ei Adroddiad Perfformiad Integredig wedi aros yr un fath am sawl blwyddyn, ac ar hyn o bryd nid yw'n mynegi'n glir effaith camau gwella yn y gorffennol na'r camau gwella parhaus (**Argymhelliad 4**). Mae'r Bwrdd lechyd wrthi'n datblygu ei fframwaith a'i strategaeth rheoli perfformiad. Wrth wneud hynny, mae angen i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod y trefniadau hyn yn ei alluogi i fynd i'r afael â'r heriau perfformiad allweddol sy'n ei wynebu.

³ Mae'r Adroddiad Risg Strategol yn darparu trosolwg o broffil risg sefydliadol presennol y Bwrdd lechyd, newidiadau mewn statws risg, ac unrhyw ddatblygiadau sy'n deillio o'r dull BAF a rheoli risg.

- 40 Yn ôl ein hadroddiad Llywodraethu Ansawdd diweddar, mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynegi'n glir drefniadau a blaenoriaethau ansawdd corfforaethol. Fodd bynnag, mae gwendidau'n parhau ar lefel ranbarthol a chyfarwyddiaeth a allai effeithio ar lif sicrwydd o'r llawr i'r Bwrdd. Mae ein hadroddiad yn amlinellu sawl argymhelliad ar gyfer gwella a dderbyniodd y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â chynllun gweithredu priodol. Mae cynnydd yn erbyn gweithredoedd y Bwrdd Iechyd yn cael ei fonitro gan Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion.
- 41 Yn dilyn adolygiad o drefniadau diogelwch gwybodaeth ym mis Tachwedd 2021, mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu ei strategaethau Seiberddiogelwch a Llywodraethu Gwybodaeth. Mae adroddiadau diweddar yn awgrymu nad oes unrhyw faterion mawr na thoriadau llywodraethu gwybodaeth yn ystod 2021-22 ac mae'n ymddangos bod trefniadau seiberddiogelwch y Bwrdd Iechyd yn gwella. Rhoddodd adolygiad Archwilio Mewnol diweddar o'r mae hwn ym mis Mehefin 2022 sicrwydd rhesymol ond tynnodd sylw at rai materion yn ymwneud â threfniadau llywodraethu ac adrodd.
- 42 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei drefniadau ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn argymhellion mewnol, archwilio allanol, ac Arolygiaeth Iechyd Cymru (AIC). Mae adroddiadau olrhain argymhellion yn dryloyw ac yn galluogi dadansoddiad manwl. Fodd bynnag, mae'r adroddiadau diweddaraf o fis Hydref 2022 yn tynnu sylw at y ffaith bod 73 o argymhellion Archwilio Mewnol ac roedd naw o argymhellion Archwilio Cymru yn hwyr gan awgrymu bod angen ymateb mwy rhagweithiol i fynd i'r afael ag argymhellion.

Arddangosyn 2: cynnydd a wnaed ar argymhellion y flwyddyn flaenorol

Argymhelliad	Disgrifiad o gynnydd
<p>Rheoli Risg 2017 A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu trefniadau rheoli risg er mwyn sicrhau bod risgiau corfforaethol yn cael eu huwchgyfeirio a'u rheoli'n briodol drwy:</p> <ol style="list-style-type: none"> ddatblygu ei adroddiadau risg presennol i sicrhau bod cyd-destun y risg a'r cynnydd wrth ei reoli wedi'u nodi'n glir; a diwygio'r sgôr risg yn seiliedig ar y camau lliniaru. 	<p>Cyflawn Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ymgorffori ei drefniadau rheoli risg ar draws y sefydliad. Canfu ein hadolygiad o'r adroddiad Risg Strategol fod cyd-destun risgiau a chynnydd wrth ei reoli yn glir ac mae tystiolaeth bod sgoriau risg yn cael eu diwygio yn seiliedig ar gamau lliniaru.</p>

Argymhelliad	Disgrifiad o gynnydd
<p>Technoleg Gwybodaeth a Rheoli Gwybodaeth 2017 A5</p> <p>Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod adnoddau sy'n cael eu dyrannu i dechnoleg gwybodaeth a rheoli gwybodaeth yn darparu digon o gapasiti i wireddu cynlluniau'r Bwrdd Iechyd.</p>	<p>Ar y gweill</p> <p>Mae diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ym mis Hydref 2022 yn nodi na fu cynnydd pellach wrth weithredu'r argymhelliad hwn.</p>
<p>Anwytho a Hyfforddi Aelodau'r Bwrdd 2018 A1</p> <p>Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod rhaglen anwytho a hyfforddi aelodau'r Bwrdd yn diwallu anghenion aelodau annibynnol.</p>	<p>Cyflawn</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno trefniadau anwytho newydd ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol.</p>
<p>Trefniadau Llywodraethu Gwybodaeth 2018 A3</p> <p>Dylai'r Bwrdd Iechyd wella'i drefniadau llywodraethu gwybodaeth drwy:</p> <ol style="list-style-type: none"> wella cydymffurfedd â'r rhaglen hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth i gyrraedd y gyfradd genedlaethol o 95%. gwella perfformiad yn erbyn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth er mwyn cyrraedd y targedau statudol. 	<ol style="list-style-type: none"> Ar y Gweill - Ar hyn o bryd, cydymffurfedd cyffredinol y Bwrdd Iechyd yw 78%. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu targed mewnol o gydymffurfedd o 85%, sy'n adlewyrchu absenoldebau staff a phwysau ar y system. Ym mis Tachwedd 2022, mabwysiadodd y Bwrdd Iechyd y modiwl hyfforddi Llywodraethu Gwybodaeth cenedlaethol, a gyflwynir drwy ddull cyfunol o e-ddysgu, ystafell ddsbarth, fideo. Yn gyflawn. Mae perfformiad rhyddid gwybodaeth y Bwrdd Iechyd yn cael ei gynnal ar tua 95%.

Argymhelliad	Disgrifiad o gynnydd
<p>Gwybodeg 2018 A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â meysydd i'w gwella o ran gwybodeg, yn benodol cynlluniau adfer trychinebau TGCh a phrofi'r rhain i sicrhau eu bod yn gweithio yn unol â'u bwriad.</p>	<p>Ar y gweill Mae diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ym mis Hydref 2022 yn dangos y gwnaed rhywfaint o gynnydd ond nid yw'r argymhelliad wedi'i weithredu'n llawn o hyd.</p>
<p>Sicrwydd a Risg y Bwrdd 2019 A2 Mae lle i wella ansawdd y gofrestr risgiau corfforaethol. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r gofrestr erbyn diwedd mis Mawrth 2020 i sicrhau ei bod yn mynegi'n glir achos ac effaith, yn lleihau gorgyffwrdd rhwng rheolaethau a chamau lliniaru, yn pennu rheolaethau fel polisïau a gweithdrefnau, yn alinio sicrwydd a rheolaethau, yn nodi a yw camau lliniaru yn effeithiol ac yn cynnwys amserlenni i fonitro cynnydd.</p>	<p>Cyflawn Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol wedi'i chynnwys yn yr adroddiad Risg Strategol, a gyflwynwyd i'r Bwrdd a'i bwyllgorau. Mae'n mynegi'n glir risgiau strategol, rheolaethau a chamau lliniaru y Bwrdd Iechyd.</p>

Argymhelliad	Disgrifiad o gynnydd
<p>Cynnwys a Gwybodaeth y Wefan 2021 A1</p> <p>Mae gwefan y Bwrdd Iechyd yn cynnwys rhywfaint o hen wybodaeth sy'n ymwneud â'i drefniadau llywodraethu a data perfformiad anghyflawn nad yw'n cael eu cefnogi gan wybodaeth esboniadol briodol. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd weithredu ar unwaith i sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none">• bod y cynnwys wedi'i drefnu'n dda, yn hawdd ei lywio, clir a chryno, a• bod gwybodaeth/data allweddol yn gyfredol ac mewn fformat y gall y cyhoedd a rhanddeiliaid ei ddehongli a'i ddeall.	<p>Ar y gweill</p> <p>Y dyddiad cwblhau yw mis Mawrth 2023; felly, mae'r argymhelliad yn parhau i fod ar y gweill.</p>

Argymhelliad	Disgrifiad o gynnydd
<p>Cydnherthedd a gallu'r Tîm Cymorth Llywodraethu Corfforaethol 2021 A3</p> <p>Mae trosiant staff diweddar o fewn y Tîm Cymorth Llywodraethu Corfforaethol wedi effeithio ar ansawdd y gwasanaeth y mae'n gallu ei ddarparu i'r Bwrdd a'i Bwyllgorau. Felly, dylai'r Bwrdd lechyd adolygu effeithiolrwydd ei Dîm Cymorth Llywodraethu Corfforaethol cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod ganddo ddigon o gydnerthedd a gallu i gefnogi pob swyddogaeth llywodraethu. Dylid hefyd rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod staff yn gallu manteisio ar gyfleoedd hyfforddi/dysgu addas i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau o fewn eu priod swyddi.</p>	<p>Ar y gweill</p> <p>Mae diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ym mis Hydref 2022 yn dangos bod capasiti ychwanegol dros dro wedi'i roi ar waith i ddarparu rhywfaint o gydnerthedd. Mae disgwyl adolygiad llawn o strwythur a chapasiti'r Tîm Cymorth Llywodraethu Corfforaethol yn chwarter 3 2022/23.</p>

Argymhelliad	Disgrifiad o gynnydd
<p>Sefydlogrwydd y Bwrdd 2021 A4</p> <p>Mae'r Bwrdd lechyd wedi gweld newidiadau sylweddol yn ei Dîm Gweithredol a sawl Aelod Annibynnol gan arwain at benodi sawl Cyfarwyddwr Gweithredol dros dro ac ar hyn o bryd mae'n recriwtio i ddwy swydd wag ar gyfer aelodau annibynnol. Fodd bynnag, mae cynnal y trefniadau dros dro hyn am gyfnod amhenodol ochr yn ochr â throsiant Aelodau Annibynnol yn cyflwyno risgiau ar adeg o bwysau gweithredu sylweddol. Felly, dylai'r Bwrdd lechyd geisio penodi'n barhaol i'r rolau Cyfarwyddwr Gweithredol allweddol hyn cyn gynted â phosibl. Yn ogystal, mae angen o hyd i'r Bwrdd lechyd gryfhau ei drefniadau anwytho a hyfforddi Aelodau Annibynnol newydd yn unol â'n hargymhelliad yn 2019.</p>	<p>Ar y gweill</p> <p>Fel y nodwyd ym mharagraff 31, mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud sawl penodiad parhaol i rai swyddi gweithredol allweddol, ond mae trefniadau dros dro yn parhau mewn swyddi gweithredol eraill. Mae'r Bwrdd lechyd yn ceisio recriwtio'n barhaol i sawl un o'r rolau allweddol hynny erbyn diwedd y flwyddyn</p>

Trefniadau cynllunio strategol

- 43 Yn y rhan hon o'r adroddiad, rydym yn rhoi ein barn ar drefniadau cynllunio strategol y Bwrdd lechyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol yn y sefydliad:
- gweledigaeth ac amcanion strategol;
 - Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP);
 - trefniadau cynllunio; a
 - threfniadau ar gyfer gweithredu a monitro cyflawniad strategaethau a chynlluniau corfforaethol.
- 44 Darperir manylion y cynnydd a wnaed ar argymhellion agored a wnaed rhwng 2017 a 2021 sy'n ymwneud â threfniadau cynllunio strategol y Bwrdd lechyd yn **Arddangosyn 3**.

- 45 Canfuom **fod angen i'r Bwrdd lechyd edrych eto ar ei strategaeth glinigol er mwyn sicrhau bod cynlluniau clinigol a thymor canolig yn helpu i ysgogi gwelliant gwasanaethau ac yn helpu i lunio gwasanaethau cynaliadwy hirdymor.**

Gweledigaeth, amcanion strategol, a chynllun tymor canolig integredig

- 46 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gweledigaeth, strategaeth, a chynllun tymor canolig ar waith ar gyfer y sefydliad. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:
- a yw'r weledigaeth a'r amcanion strategol yn canolbwyntio ar y dyfodol, ac wedi'u gwreiddio mewn dadansoddiad manwl a chynhwysfawr o anghenion, cyfleoedd, heriau, a risgiau;
 - a yw'r weledigaeth a'r amcanion strategol wedi'u datblygu a'u mabwysiadu gan y Bwrdd;
 - a yw'r strategaeth hirdymor wedi'i seilio ar strategaeth glinigol hirdymor briodol; ac
 - a gafodd yr IMTP ei adolygu gan y Bwrdd, ei gyflwyno o fewn yr amserlen ofynnol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a'i gymeradwyo gan y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- 47 Canfuom, **er bod gan y Bwrdd lechyd weledigaeth glir ac amcanion strategol, mae angen adolygu ei Strategaeth Dyfodol Clinigol i sicrhau ei bod yn ymateb i bwysau gwasanaeth ac ariannol cynyddol ac yn darparu llwyfan effeithiol ar gyfer cynllunio gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd da.**
- 48 Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) 2022-25 y Bwrdd lechyd yn amlinellu ei weledigaeth a'i amcanion strategol. Mae'n adeiladu ar y dull cwrs bywyd a gyflwynwyd yn flaenorol yn ei Gynllun Blynyddol 2021-22 ac yn alinio i Adeiladu Gwent Iachach⁴ a Strategaeth Dyfodol Clinigol y Bwrdd lechyd. Nod dull cwrs bywyd y Bwrdd lechyd yw lleihau anghydraddoldebau ar draws cymunedau drwy wella iechyd y boblogaeth. Mae'r dull gweithredu yn amlinellu pum amcan strategol clir sy'n cyd-fynd â chyfnodau allweddol mewn cwrs bywyd unigolyn, a ategir gan gyfres o ganlyniadau a mesurau i'w cyflawni.
- 49 Mae'r Strategaeth Dyfodol Clinigol, a fu ar waith ers dros ddegawd bellach, yn amlinellu uchelgais hirdymor y Bwrdd lechyd ar gyfer darparu gwasanaethau clinigol. Er bod y Bwrdd lechyd yn bwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni'r strategaeth, dylai geisio cynnal adolygiad manwl o'r strategaeth cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau ei bod yn addas ar gyfer y dyfodol, yn enwedig o ystyried yr heriau gweithredu a gweithlu y mae'r sefydliad yn eu hwynebu. Ar ben hynny, er bod y strategaeth yn darparu cyfeiriad lefel uchel ar gyfer gwasanaethau clinigol, nid yw'n

⁴ Mae Adeiladu Gwent Iachach yn ddull cydweithredol o gefnogi iechyd a lles mewn cymunedau ledled Gwent.

cael ei ategu gan gynllun clinigol hirdymor manwl ar hyn o bryd i sicrhau gwasanaethau clinigol o ansawdd da a chynaliadwy. (**Argymhelliad 5**).

- 50 Cafodd fersiwn ddrafft Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) 2022-25 ei drafod a'i gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2022 a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru o fewn yr amserlen ofynnol. Cymeradwyodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y cynllun ym mis Mehefin 2022. Fodd bynnag, bydd paratoi cynllun cymeradwy ar gyfer 2023 ymlaen yn dod yn fwyfwy heriol i'r Bwrdd Iechyd o ganlyniad i'r risgiau cyfredol sy'n gysylltiedig â phwysau costau yn y flwyddyn a'r dyfodol, materion perfformiad, a thwf parhaus mewn gofynion gwasanaeth.

Trefniadau cynllunio

- 51 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd yn cynnal goruchwyliaeth effeithiol o'r broses ar gyfer datblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:
- a yw egwyddorion gofal iechyd darbodus wedi'u seilio ar werth wedi'u hystyried a'u hadlewyrchu mewn strategaethau a chynlluniau corfforaethol;
 - a yw strategaethau a chynlluniau corfforaethol wedi'u datblygu drwy gysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol perthnasol; ac
 - a yw trefniadau ar gyfer comisiynu gwasanaethau yn effeithiol ac effeithlon, ac yn cyd-fynd â strategaethau a chynlluniau corfforaethol.
- 52 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd ddull gweddol effeithiol o gynllunio, ond gellid gwella ymgysylltiad â rhanddeiliaid o ran newidiadau i wasanaethau a datblygu atebion ar y cyd.**
- 53 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu'n dda â'i rhanddeiliaid mewnol fel rhan o brosesau cynllunio strategol. Datblygwyd IMTP 2022-25, Cynllun Pobl 2022-25, a Strategaeth y Celfyddydau mewn Iechyd 2022-27 gyda chyfranogiad gan rhanddeiliaid mewnol allweddol, drwy ymgysylltu â staff a fforymau amrywiol y Bwrdd Iechyd. Rhoddwyd cyfleoedd hefyd i aelodau'r Bwrdd wneud sylwadau ar y strategaethau a'r cynlluniau hyn drwy sesiynau datblygu y Bwrdd. Fodd bynnag, gwnaethant nodi y byddai ymgysylltu'n gynharach ar yr IMTP wedi bod o fudd.
- 54 Bu'r Bwrdd Iechyd yn trafod Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022-25 gyda Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Iechyd Cymuned wrth ei ddatblygu, ond prin oedd tystiolaeth o ymgysylltu â phartneriaid ehangach. Dylai'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â hyn fel modd o ddatblygu datrysiadau ar y cyd, yn enwedig pan fo gwasanaethau yn rhyngweithio, fel iechyd a gofal cymdeithasol (**Argymhelliad 6**). Mae cyfleoedd hefyd i'r Bwrdd Iechyd wella ymgysylltu â staff a chynrychiolwyr Undebau Llafur wrth gynllunio newidiadau gweithredol i wasanaethau'r Bwrdd Iechyd. Mae adroddiad blynyddol diweddaraf y Fforwm Partneriaeth Undebau Llafur yn tynnu sylw at faterion ymgysylltu sy'n ymwneud â'r Uned Gofal Brys yr Un Diwrnod (SDEC) yn Ysbyty Athrofaol Y Faenor a newidiadau arfaethedig posibl yn Ysbyty'r Sir. Mae'n ymddangos bod pwysau'r gwasanaeth yn ei gwneud yn anoddach i staff

a rheolwyr gadw gwasanaethau'n cyflawni a chynllunio ar gyfer y dyfodol ar yr un pryd, ond mae'n hanfodol.

- 55 Yn gadarnhaol mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio cyflawni arbedion drwy ei ddull gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth. Mae ei Dîm Gofal Iechyd sy'n seiliedig Werth yn cefnogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar draws y sefydliad, a bu rhai cyflawniadau hyd yma. Dim ond trwy gynllunio a newid gwasanaethau yn effeithiol ar lefel weithredol y gellir cyflawni llawer o fuddion gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth. Mae'n buddsoddi £2.9 miliwn i gefnogi gwelliannau gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth, ond bydd angen iddo sicrhau adenillion clir ar fuddsoddiad trwy well ansawdd, mwy o effeithlonrwydd, a lleihau costau.
- 56 Mae'r Bwrdd Iechyd yn comisiynu amrywiaeth o ddarparwyr yn uniongyrchol ar gyfer ei wasanaethau gofal iechyd. Mae ganddo dîm comisiynu sy'n rheoli ac yn monitro trefniadau pan fo'r Bwrdd Iechyd yn comisiynu neu'n darparu gwasanaethau. Fodd bynnag, rhoddodd adolygiad Archwilio Mewnol diweddar ar Gomisiynu Gofal Iechyd Parhaus y GIG sicrwydd prin, gan dynnu sylw at wendidau goruchwylio a chraffu ar rai gwasanaethau a gomisiynwyd.

Trefniadau gweithredu a monitro

- 57 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd yn goruchwylio, craffu a herio gweithrediad a darpariaeth strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:
- a yw strategaethau a chynlluniau corfforaethol yn cynnwys cerrig milltir, targedau, a chanlyniadau clir sy'n cynorthwyo monitro ac adrodd; ac
 - a yw'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar gynnydd i ddarparu strategaethau a chynlluniau corfforaethol.
- 58 Canfuom **nad yw'r fframwaith canlyniadau newydd yn ddatblygiad cadarnhaol, ond mae absenoldeb dyddiadau targed clir a cherrig milltir mewn cynlluniau yn atal monitro cynnydd effeithiol.**
- 59 Yn gyffredinol, mae cynlluniau strategol allweddol yn darparu amcanion clir a ategir gan fesurau canlyniadau. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnwys dyddiadau targed / cerrig milltir gan ei gwneud yn anoddach olrhain cynnydd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio ar ei Strategaeth Dyfodol Clinigol gyda sawl rhaglen flaenoriaeth i'w darparu yn parhau. Mae perchnogaeth glir gan y Cyfarwyddwr Gweithredol, ac yn ddiweddar mae'r Bwrdd Iechyd wedi ail-sefydlu Bwrdd y Rhaglen Dyfodol Clinigol sy'n darparu goruchwyliaeth.
- 60 Mae fframwaith canlyniadau chwarterol y Bwrdd Iechyd yn helpu'r Bwrdd i fonitro cynnydd yn erbyn amcanion strategol a amlinellir yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd. Mae'r fframwaith canlyniadau a gyflwynwyd eleni yn arwydd o symudiad y Bwrdd Iechyd tuag at fesuriadau ar sail canlyniadau ac yn

cyd-fynd â Fframwaith Perfformiad GIG Cymru⁵. Mae'r adroddiad yn glir ac yn hawdd ei ddeall gyda defnydd da o wybodaeth ansoddol a meintiol i ddangos gwybodaeth am berfformiad. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i fynegi'n gliriach y risgiau i gyflawni ei Raglenni Dyfodol Clinigol, mae rhai heriau ynghylch prydlondeb data canlyniadau, ac mae angen defnyddio gwybodaeth am brofiad cleifion yn well. Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod bod ei fframwaith yn 'waith ar y gweill' a bod angen ei ddatblygu ymhellach (**gweler Arddangosyn 3 A3 2019, A4 2019, ac A5 2021**).

Arddangosyn 3: cynnydd a wnaed ar argymhellion y flwyddyn flaenorol

Argymhelliad	Disgrifiad o gynnydd
<p>Strategaeth Ymgysylltu 2017 A7 Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu adnewyddu a diweddarau'r Strategaeth Ymgysylltu – 'Clywed a gweithredu ar lais ein staff a'n dinasyddion'.</p>	<p>Anghyflawn Mae diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio, Risg, a Sicrwydd ym mis Hydref 2022 yn nodi na fu cynnydd pellach wrth weithredu'r argymhelliad hwn.</p>
<p>Adrodd ar gyflawni'r IMTP a Dyfodol Clinigol 2019 A3 Nid yw diweddariadau i'r Bwrdd ar Ddyfodol Clinigol yn cynnwys gwybodaeth am a yw camau / lliniaru arfaethedig yn effeithiol, ac nid yw'n glir a yw'r risgiau na adroddir arnynt mwyach wedi'u dileu. Dylai'r Bwrdd lechyd gynnwys gwybodaeth am effeithiolrwydd lliniaru risg yn ei ddiweddariadau Bwrdd.</p>	<p>Ar y gweill Mae fframwaith canlyniadau chwarterol y Bwrdd lechyd yn helpu'r Bwrdd i fonitro cynnydd yn erbyn cyflawni amcanion strategol a amlinellwyd yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd lechyd. Canfu ein hadolygiad gyfleoedd i gyfleu'n gliriach risgiau i gyflawni ei Raglenni Dyfodol Clinigol.</p>

⁵ [Fframwaith Perfformiad GIG Cymru 2022-23](#)

Argymhelliad	Disgrifiad o gynnydd
<p>Adrodd ar ddarparu IMTP a Dyfodol Clinigol 2019 A4</p> <p>Nid oedd yr adroddiad diweddar i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ar gynnydd Cynlluniau Newid Gwasanaeth (SCP) yr IMTP yn cynnwys cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau effaith uchel perthnasol sy'n cyd-fynd â nhw. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod adroddiadau pwyllgorau ar gynnydd SCP yn cysylltu'n amlwg â blaenoriaethau effaith uchel perthnasol gyda'r cyflawniadau a nodir.</p>	<p>Wedi'i ddisodli</p> <p>Mae adrodd ar gynlluniau newid gwasanaeth yr IMTP yn cael ei ddisodli gan Fframwaith Canlyniadau y Bwrdd Iechyd sy'n ei alluogi i fonitro'r cynnydd wrth gyflawni amcanion strategol a amlinellir yn ei IMTP a'i Strategaeth Dyfodol Clinigol.</p>
<p>Monitro Cyflawniad Amcanion Strategol 2021, A5</p> <p>Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cwblhau ei fframwaith monitro oherwydd y pandemig, felly mae goruchwyliaeth a chraffu ar gyflawniad cyffredinol yn erbyn blaenoriaethau a amlinellwyd yng Nghynllun Blynyddol 2021-22 yn gyfyngedig o hyd ar lefel Bwrdd. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd gwblhau'r gwaith o ddatblygu ei fframwaith monitro cyn gynted â phosibl er mwyn caniatáu i'r Bwrdd adolygu ac os oes angen, herio'r gwaith o gyflawni ei flaenoriaethau strategol a symud ymlaen ar y Cynllun Blynyddol a Chynlluniau Tymor Canolig Integredig y dyfodol.</p>	<p>Cyflawn</p> <p>Mae fframwaith canlyniadau'r Bwrdd Iechyd yn ei helpu i fonitro cyflawniad gwrthrychol strategol. Mae'r fframwaith canlyniadau a gyflwynwyd eleni yn arwydd o symudiad y Bwrdd Iechyd tuag at fesuriadau ar sail canlyniadau ac yn cyd-fynd â Fframwaith Perfformiad GIG Cymru.</p>

Rheoli adnoddau ariannol

- 61 Yn y rhan hon o'r adroddiad, rydym yn rhoi ein barn ar drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli ei adnoddau ariannol, gan ganolbwyntio'n benodol ar drefniadau'r sefydliad:
- trefniadau ar gyfer bodloni amcanion ariannol allweddol ;
 - rheolaethau ariannol; a
 - threfniadau ar gyfer adrodd a monitro perfformiad ariannol.
- 62 Darperir manylion y cynnydd a wnaed ar argymhellion agored a wnaed rhwng 2017 a 2021 sy'n ymwneud â threfniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli adnoddau ariannol yn **Arddangosyn 4**.
- 63 Canfuom, **er y bu trefniadau i sicrhau cydbwysedd ariannol yn foddhaol hyd yn hyn, mae angen i'r Bwrdd gryfhau ei bwyslais ar fynd i'r afael â heriau ariannol a risgiau a sicrhau gwell goruchwyliaeth o fesurau adfer ariannol.**

Amcanion ariannol

- 64 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar waith i gyflawni ei amcanion ariannol allweddol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:
- a yw'r Bwrdd Iechyd wedi bodloni ei amcanion ariannol ar gyfer 2021-22, ac ar y trywydd iawn i gyflawni ei ddyletswyddau ariannol yn 2022-23; ac
 - a oes ganddo gynllun ariannol clir a chadarn ar waith, sy'n cynnwys arbedion realistig a chynaliadwy a chynlluniau gwella costau.
- 65 Canfuom, **er i'r Bwrdd Iechyd gyflawni ei amcanion ariannol ar gyfer 2021-22, nid yw ar y trywydd iawn i gyflawni ei ddyletswyddau ariannol yn 2022-23 oherwydd pwysau a heriau cynyddol mewn costau wrth gyflawni ei raglen arbedion.**
- 66 Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd ariannol i wario o fewn ei ddyraniad dros y cyfnod o dair blynedd 2019-20 22, gyda gwarged cronus o £0.526 miliwn ar gyfer gwariant refeniw. Yn 2021-22, adroddodd y Bwrdd Iechyd sefyllfa wedi'i mantoli o ran gwariant refeniw a chyfalaf.
- 67 Er bod gan y Bwrdd Iechyd hanes ariannol da, mae'r diffyg sylfaenol cynyddol y mae'n ei adrodd⁶, a'r rhagolwg erbyn hyn o ddiffyg ariannol sylweddol yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2022-23, yn bryder sylweddol. Yn ystod 2020-21, nododd y Bwrdd Iechyd darged arbedion uchelgeisiol o £33 miliwn i gyflawni sefyllfa wedi'i mantoli. Fodd bynnag, diwygiodd y Bwrdd Iechyd ei darged cynilo i £16.596 miliwn oherwydd effaith barhaus y pandemig ac, o ganlyniad, carwyd y diffyg sylfaenol unwaith eto i'r flwyddyn ariannol hon.

⁶ Cynnydd i ddiffyg sylfaenol y Bwrdd Iechyd a adroddwyd dros y tair blynedd diwethaf: £11.405 miliwn (2019-20), £16.261 miliwn (2020-21) a £20.914 miliwn (2021-22).

- 68 Cymeradwywyd cynllun ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2022-23 gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2022 gan ddisgwyl y byddai'n sicrhau gwelliant i'w sefyllfa ariannol sylfaenol. Mae'r cynllun ariannol yn parhau i gyfrif am gostau Covid-19 a risgiau ariannol newydd a phwysau cost eithriadol. Er mwyn sicrhau sefyllfa ariannol wedi'i mantoli yn 2022-23, mae'r cynllun ariannol yn tybio y bydd £26 miliwn o arbedion yn cael ei gyflawni ac y bydd camau lliniaru ac osgoi costau yn werth £19 miliwn. Ond mae pwysau costau a gostyngiad mewn disgwyliadau arbedion yn cael effaith sylweddol. Ym mis Hydref 2022, hysbyswyd y Bwrdd Iechyd na fyddai'r Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa wedi'i mantoli y flwyddyn ariannol hon gan ragweld diffyg tebygol o £37 miliwn (£49 miliwn yw'r senario gwaethaf) os na fydd camau pellach yn cael eu cymryd.
- 69 Y prif ffactorau sy'n cyfrannu at y diffyg yw gostyngiadau incwm sylweddol a lefelau gwariant uchel parhaus ar gyfer Covid-19, cyflog amrywiol, rhagnodi twf, twf costau gofal iechyd parhaus, cynlluniau cyflawni dewisol ar gyfradd premiwm, ac arbedion arian parod cyfyngedig yn erbyn cynlluniau. Byddai'r canlyniad ar gyfer eleni yn golygu nad yw'r Bwrdd Iechyd yn bodloni ei ofyniad gwariant statudol. Ond mae'r her ariannol ar gyfer y blynyddoedd nesaf yn debygol o gynyddu hefyd, a allai effeithio ar allu cymeradwyo Cynllun Tymor Canolig Integredig y flwyddyn nesaf.
- 70 Nid yw'r newid i'r sefyllfa ariannol a adroddwyd yn ffurfiol yn syndod. Yn ystod chwe mis cyntaf blwyddyn ariannol 2022/23, mae'r Bwrdd Iechyd wedi adrodd yn gyson y risgiau sylweddol i'w sefyllfa ariannol mewn cyfarfodydd tîm gweithredol, a chyfarfodydd Bwrdd cyhoeddus a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Ond mae'r risgiau hynny wedi cael eu gwireddu gan arwain at newid i'r sefyllfa a adroddwyd yn ffurfiol.
- 71 Ar hyn o bryd rydym wrthi'n adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau arbedion ariannol a byddwn yn cynnig argymhellion ar gyfer gwella fel rhan o'r gwaith hwnnw. Fodd bynnag, mae'n glir bod angen mwy o berchnogaeth a chywirdeb ar y cyd erbyn hyn i fynd i'r afael â'r heriau ariannol yn y tymor byr a'r tymor canolig.

Rheolaethau ariannol

- 72 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer dyrannu, awdurdodi, cofnodi, a rheoli'r defnydd o'i adnoddau ariannol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:
- a oes rheolaethau effeithiol ar waith i sicrhau cydymffurfedd â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynlluniau Dirprwyaeth;
 - a yw'r Pwyllgor Archwilio yn cynnal goruchwyliaeth briodol o drefniadau a pherfformiad yn ymwneud â gweithredoedd tendro sengl, taliadau arbennig, colledion, a gwrth-dwyll;
 - a oes trefniadau rheoli ariannol effeithiol ar waith; ac
 - a gafodd y datganiadau ariannol eu cyflwyno mewn pryd, nad oeddent yn cynnwys cam-ddweud materol, ac y cafwyd barn archwilio lân.

- 73 Canfuom, **er bod rheolaethau ariannol yn parhau i fod yn effeithiol ar y cyfan, mae angen rhoi mwy o eglurder ynghylch atebolrwydd dirprwyedig ar gyfer cyllidebau a darparu arbedion.**
- 74 Ym mharagraff 20 gwnaethom sylw ar drefniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau cydymffurfedd â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynlluniau Dirprwyo. Er bod trefniadau rheoli ar waith, mae'r sefyllfa ariannol sy'n dirywio yn awgrymu y dylid eu hadolygu er mwyn sicrhau atebolrwydd dirprwyedig clir ar gyfer y sefyllfa gyllidebol a chyflawni arbedion ariannol ar lefelau Gweithredol ac is.
(Argymhelliad 7)
- 75 Yn ystod 2022-23, cwblhaodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol sawl adolygiad o ran llywodraethu a rheoli ariannol yn y Bwrdd Iechyd a roddodd sgoriau sicrwydd rhesymol a sylweddol mewn cysylltiad â rheoli costau esgeulustod clinigol, cronfeydd elusennol, a rheolaethau cyllidebol ar gyfer rheoli gwastraff. Roedd eu hadolygiad o gynaliadwyedd ariannol hefyd yn rhoi sicrwydd rhesymol, er bod y rhagolygon ariannol yn dirywio bellach.
- 76 Daeth ein hadolygiad o hyd i adroddiadau priodol i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar gamau tendro sengl, a cholledion a thaliadau arbennig gyda chraffu a goruchwyliaeth briodol o'r wybodaeth. Mae'r pwyllgor hefyd yn cael adroddiadau cynnydd rheolaidd gan Dîm Gwrth-dwyll y Bwrdd Iechyd. Mae'r adroddiad diweddaraf yn tynnu sylw at rai pryderon ynghylch yr adnoddau a'r capasiti o fewn y tîm sydd wedi effeithio ar ei allu i ymgymryd â rhai o'i waith arfaethedig. Fodd bynnag, roedd recriwtio ar y gweill, ac maent wedi llwyddo i benodi un Arbenigwr Gwrth-dwyll Lleol gan adael un swydd wag arall.
- 77 Gwnaethom dderbyn Datganiadau Ariannol drafft y Bwrdd Iechyd erbyn y dyddiad cau ar 29 Ebrill 2022, a'r Adroddiad Perfformiad ac Atebolrwydd drafft erbyn 6 Mai 2022. Cafodd y dogfennau a archwiliwyd eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru, erbyn 15 Mehefin 2022, y dyddiad cau. Gwnaethom gyhoeddi barn archwilio ddiamod ar Ddatganiadau Ariannol 2021-22, heblaw am y farn ar reoleidd-dra, y gwnaethom gyhoeddi barn amodol ar ei gyfer⁷.

Trefniadau monitro ac adrodd

- 78 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd yn goruchwyllo, craffu, ac yn herio perfformiad ariannol y sefydliad. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:
- a yw adroddiadau i'r Bwrdd yn rhoi darlun clir o sefyllfa ariannol y sefydliad, yn ogystal â'r heriau ariannol allweddol, y risgiau, a'r camau lliniaru a gymerwyd; ac
 - a yw aelodau'r Bwrdd yn herio asesiadau parhaus o'r sefyllfa ariannol yn ddigonol.

⁷ Eleni rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol amod ar ei farn ar reoleidd-dra mewn wyth o un ar ddeg o gyfrif y GIG oherwydd y cyfrifon gan gynnwys gwariant a chyllid o ran rhwymedigaethau treth pensiwn clinigwyr.

- 79 Canfuom fod **gwybodaeth ddigonol a chlr i alluogi monitro ariannol effeithiol, ond mae'n rhaid i'r Bwrdd graffu a herio'n fwy cadarn ar berfformiad ariannol a risgiau a chryfhau ei oruchwyliaeth o fesurau adfer ariannol.**
- 80 Mae perfformiad ariannol yn cael ei adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad⁸. Mae adroddiadau cyllid yn parhau i ddarparu digon o wybodaeth i allu craffu a herio ac yn cynnwys rhywfaint o fanylion am gynnydd yn erbyn cynlluniau arbedion (**gweler Arddangosyn 4 A1, 2017**). Fodd bynnag, gwelsom achosion lle cyflwynir adroddiadau tebyg yn fras i'r ddau fforwm, gan gyfyngu ar gyfleoedd, yn enwedig ar lefel pwyllgor, i ymgymryd ag archwiliadau dwfn a darparu her mewn meysydd penodol lle mae cyflawniad arbedion i ffwrdd o'r trywydd iawn. Yn ddiweddar mae'r Bwrdd lechyd wedi penodi Aelod Annibynnol (Cyllid) newydd sy'n dechrau cynyddu'r craffu a'r her ar faterion ariannol mewn cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau. Fodd bynnag, bydd yr heriau ariannol presennol yn y Bwrdd lechyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad graffu a herio'n fwy cadarn ar berfformiad ariannol, arbedion, a risgiau.

Arddangosyn 4: cynnydd a wnaed ar argymhellion y flwyddyn flaenorol

Argymhelliad	Disgrifiad o gynnydd
<p>Monitro ac Adrodd ar Gynlluniau Arbedion 2017 A1</p> <p>Dylai'r Bwrdd lechyd roi mwy o fanylion i Swyddogion Gweithredol ac Aelodau Annibynnol am gynnydd yn erbyn cynlluniau arbedion. Dylai hyn eu helpu i graffu a herio'n ddigonol ar gynlluniau nad ydynt yn cyrraedd y targed.</p>	<p>Cyflawn</p> <p>Mae adroddiadau cyllid yn parhau i ddarparu digon o wybodaeth i allu craffu a herio ac maent yn cynnwys mwy o fanylion am gynnydd ar gynlluniau arbedion.</p>

⁸ Darparwyd adroddiadau yn flaenorol i'r Pwyllgor Archwilio, Cyllid a Risg nes i'r trefniadau gael eu hadolygu ym mis Mawrth 2022.

Rheoli'r gweithlu, adnoddau digidol, yr ystad, ac asedau ffisegol eraill

- 81 Yn y rhan hon o'r adroddiad, rydym yn rhoi ein barn lefel uchel ar drefniadau'r Bwrdd lechyd ar gyfer rheoli ei adnoddau ehangach, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol yn y sefydliad:
- trefniadau ar gyfer cefnogi llesiant staff (noder y byddwn yn cynnal adolygiad ar wahân o drefniadau cynllunio gweithlu'r sefydliad);
 - trefniadau ar gyfer rheoli ei adnoddau digidol; a
 - threfniadau ar gyfer rheoli ei ystad ac asedau ffisegol eraill.
- 82 Canfuom fod **gan y Bwrdd lechyd ddull da o gefnogi llesiant staff. Mae'n awyddus i fanteisio ar fuddion 'digidol', ond mae angen goruchwyliaeth gryfach o weithredu'r strategaeth a chynlluniau digidol. Mae gan y Bwrdd lechyd agwedd strategol at Ystadau, ond mae'r cyllid cyfalaf sydd ar gael yn bryder, ac mae angen cryfhau ei reolaeth o asedau ffisegol.**

Cefnogi llesiant staff

- 83 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer cefnogi llesiant staff. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:
- a yw'r mecanweithiau i ofyn am sylwadau staff ynghylch eu hanghenion llesiant yn effeithiol, ac a gymerir camau priodol i ymateb i ganfyddiadau; ac
 - a yw'r camau i gefnogi a gwella llesiant staff yn cael eu monitro'n weithredol gan y Bwrdd, gan gynnwys camau a gymerwyd mewn ymateb i'n hadroddiad ni ar sut y cefnogodd cyrff y GIG llesiant staff yn ystod pandemig COVID-19⁹.
- 84 Canfuom fod **y Bwrdd lechyd yn blaenoriaethu llesiant ac yn parhau i ddeall sut mae ei staff yn teimlo i helpu i lywio ei fentrau gwella.**
- 85 Mae IMTP a Chynllun Pobl y Bwrdd lechyd yn nodi llesiant corfforol a meddyliol ei staff yn flaenoriaeth sefydliadol. Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod y bydd bod â staff iach a llawn cymhelliant yn arwain at gyfraddau cadw gwell, arloesi uwch, lefelau is o absenoldeb oherwydd salwch, ac effaith gadarnhaol ar brofiad cleifion. Mae'r Cynllun Pobl yn amlinellu sawl canlyniad allweddol i gyflawni hyn¹⁰. Mae'r Bwrdd lechyd yn cwblhau arolygon llesiant rheolaidd er mwyn deall sut mae ei staff

⁹ Archwilio Cymru, [Gofalu am y gofaluwyr? Sut roedd cyrff y GIG yn cefnogi lles staff yn ystod pandemig COVID-19](#), Hydref 2021

¹⁰ Ymhlith y canlyniadau allweddol yn y Cynllun Pobl mae sefydlu Canolfan Ragoriaeth gyntaf Cymru, cyflwyno rolau llesiant seicolegol integredig newydd a rhwydweithiau cymorth cymheiriad, gwella'r ymgysylltu â staff, cyflwyno fframweithiau arwain tosturiol ac adeiladu ar gynnig llesiant ariannol y Bwrdd lechyd.

yn teimlo. Ffurfiwyd y Cynllun Pobl ar sail canlyniadau'r gwasanaethau hyn ac arolwg staff y GIG.

- 86 Mae prosiectau 'pobl yn gyntaf' a 'gweithio ystwyth' y Bwrdd Iechyd, sydd â'r nod o fynd i'r afael ag ymddieithrio staff, straen yn y gwaith a gwella llesiant staff, yn datblygu'n dda. Gwnaeth ein hadroddiad 'Gofalu am y Gofalwyr' sawl argymhelliad i gyrrff iechyd ynghylch llesiant staff ac fe'u derbyniwyd gan y Bwrdd Iechyd, ac ymatebwyd iddynt ac maent bellach wedi'u gweithredu'n llawn.
- 87 Mae'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn darparu fforwm i graffu a gofyn am sicrwydd yn y maes hwn, gyda gwybodaeth wedi'i chynnwys mewn Dangosfwrdd Llesiant Gweithwyr. Fodd bynnag ar hyn o bryd, mae'n anodd gweld effaith ei mentrau llesiant ar feysydd fel absenoldeb oherwydd salwch, sy'n cynyddu, yn arbennig yn ymwneud â gorbryder, straen ac iselder. Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan gadeirydd y pwyllgor ar waith y pwyllgor a risgiau allweddol yn ymwneud â'r gweithlu.

Rheoli adnoddau digidol

- 88 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer rheoli ei adnoddau digidol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:
- a oes strategaeth ddigidol ar waith wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd sy'n ceisio harneisio a manteisio ar dechnoleg ddigidol i wella ansawdd, diogelwch, ac effeithlonrwydd gwasanaethau, yn ogystal â chefnogi modelau newydd o ofal a ffyrdd newydd o weithio; ac
 - a yw'r Bwrdd yn monitro'n weithredol y buddion sy'n deillio o fuddsoddiadau mewn technoleg ddigidol.
- 89 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi adnewyddu ei strategaeth ddigidol ond bod angen gwella craffu a herio i sicrhau bod digidol yn dod yn alluogydd strategol a gweithredol ar gyfer gwella gwasanaethau ehangach yn wirioneddol.**
- 90 Cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd ei strategaeth 'Trawsnewid Trwy Ddigidol' yn 2019. Mae'r strategaeth yn amlinellu pedair egwyddor, sef sylfeini digidol, sefydliad digidol, cymuned, data, gwybodaeth, deallusrwydd digidol, a blaenoriaethau cyflenwi cysylltiedig. Mae'r strategaeth yn cyd-fynd ag IMTP a strategaeth Dyfodol Clinigol y Bwrdd Iechyd.
- 91 Yn anochel mae pandemig Covid-19 wedi rhwystro cyflawni'r strategaeth. Mae diweddariad a ddarparwyd i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2022, yn dangos pwyslais wedi'i adnewyddu, ac yn darparu trosolwg naratif o gynnydd ar gyfer pob rhaglen sy'n cyd-fynd â'r pedair egwyddor. Ond mae adrodd ar gynnydd yn cynnwys bylchau y mae angen mynd i'r afael â nhw gan nad yw adroddiadau sicrwydd yn cynnwys cynllun gweithredu, sgoriau COG na cherrig milltir / targedau. Yn seiliedig ar yr wybodaeth a adroddwyd, mae'n anodd asesu pa wahaniaeth y mae'r strategaeth yn ei wneud, a oes digon o adnoddau ar gael ar ei gyfer ac a yw digidol

yn galluogi gwelliant i'r gwasanaeth ehangach. Er bod y strategaeth ddigidol wedi'i chynnwys ym mlaenraglen waith y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ar gyfer ei gyfarfod ym mis Hydref 2022, ni chafodd ei drafod yn y cyfarfod. Mae'r Aelod Annibynnol (Digidol) newydd yn eiriolwr cryf dros wasanaethau wedi'u galluogi'n ddigidol ac, fel aelod o'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, dylai helpu i wella craffu ar berfformiad digidol a'i herio.

Rheoli'r ystad ac asedau ffisegol eraill

- 92 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer rheoli ei ystad ac asedau ffisegol eraill. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:
- a oes strategaethau a chynlluniau wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd ar waith ar gyfer rheoli ystadau'r sefydliad a'i asedau ffisegol ehangach;
 - a oes trefniadau priodol ar waith i'r Bwrdd adolygu, craffu, herio, a chymeradwyo prosiectau a rhaglenni cyfalaf sylweddol; ac
 - a oes trefniadau priodol ar waith i'r Bwrdd gynnal goruchwyliaeth briodol o gyflwr yr ystad ac asedau ffisegol eraill.
- 93 Canfuom fod **gan y Bwrdd lechyd strategaeth ystadau a gefnogir gan drefniadau llywodraethu priodol, ond bod y cyllid cyfalaf sydd ar gael yn bryder, ac mae angen cryfhau ei reolaeth o asedau ffisegol.**
- 94 Cymeradwyodd y Bwrdd lechyd ei strategaeth Ystadau 10 mlynedd yn 2019 gan adnewyddu'r dull gweithredu ym mis Tachwedd 2021. Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â'r IMTP a'r strategaeth Dyfodol Clinigol¹¹. Fel rhan o hyn, mae'r Bwrdd lechyd yn symud ymlaen â'i brosiect 'gweithio ystwyth'. Mae Grŵp Defnyddio ac Effeithlonrwydd Ystadau y Bwrdd lechyd yn gweithio ar y cyd â'r Grŵp Cyflawni Gweithio Ystwyth i adolygu defnydd ystadau, cefnogi modelau gweithio ystwyth, a phenderfynu ar opsiynau ar gyfer datgomisiynu ystadau o ansawdd gwael neu ystadau nad oes eu hangen mwyach.
- 95 Mae rhaglen gyfalaf y Bwrdd lechyd yn un o'r prif ffactorau sy'n ei alluogi i gyflawni ei strategaeth Ystadau. Fodd bynnag, mae blaenoriaethu gwariant cyfalaf yn broblem. Mae diweddariad a ddarparwyd i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2022 yn nodi bod y rhagolygon cyfalaf ar gyfer 2022-23 yn heriol oherwydd dyraniad cyllid is a galwadau sylweddol ar y rhaglen gyfalaf ddewisol. Mae'r Bwrdd lechyd wedi cyflwyno dull mwy cadarn o flaenoriaethu adnoddau cyfalaf sy'n mynd i'r afael â materion fel ôl-groniad gwaith cynnal a chadw, disodli hen offer, ac adnewyddu seilwaith TGCh allweddol. Mae aelodau'r Bwrdd yn cydnabod yn llawn yr heriau sy'n deillio o roi adnoddau cyfalaf isel a'r risgiau i'w ystadau, asedau, a chydymffurfedd iechyd a diogelwch. Mae'r Grŵp Cyfalaf Strategol ac Ystadau yn

¹¹ Mae'r Strategaeth Ystadau 10 mlynedd yn canolbwyntio ar ddatblygu 'hybiau' ffisegol a rhithwir ar draws y rhanbarth a thrawsnewid ei rwydwaith ysbytai i ddarparu model prif ganolfan a lloerennau o wasanaethau gofal eilaidd.

monitro'r gwaith o gyflawni amcanion strategol yr Ystadau ac yn adrodd cynnydd i Fwrdd y Rhaglen Dyfodol Clinigol. Prin fu goruchwyliaeth y Bwrdd o faterion ystadau, er ein bod yn deall y bydd lefelau cynyddol o graffu yn y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad.

- 96 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion Archwilio Mewnol o ran ei Gyfarpar a Dyfeisiau Meddygol. Mae cynnydd yn cynnwys cyflwyno system tagio asedau, gyda chymau pellach yn cael eu holrhain gan y Grŵp Rheoli Cyfarpar Meddygol. Canfu ein gwaith hefyd er bod cofrestrau asedau ar waith ac mae'n ymddangos bod gwybodaeth am gylchoedd bywyd cyfarpar, mae angen gwella gwaith olrhain asedau, er enghraifft lleoliad offer TG.

Atodiad 1

Dull archwilio

Arddangosyn 5: dull archwilio

Mae **Arddangosyn 5** yn nodi'r dull a fabwysiadwyd gennym ar gyfer cyflawni ein gwaith asesu strwythuredig yn y Bwrdd Iechyd.

Elfen o ddull archwilio	Disgrifiad
Arsylwadau	Gwnaethom arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y Pwyllgorau canlynol: <ul style="list-style-type: none">• Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd• Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch Cleifion a Chanlyniadau• Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad• Pwyllgor Partneriaethau, Iechyd y Boblogaeth, a Chynllunio.

Elfen o ddull archwilio	Disgrifiad
Dogfennau	<p>Gwnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cylch Gorchwyl y Bwrdd a Phwyllgorau, rhaglenni gwaith, agendâu, papurau, a chofnodion • Dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Cynlluniau Dirprwyo, Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cofrestrau Buddiannau, a Chofrestrau Rhoddion a Lletygwrch • Strategaethau a chynlluniau sefydliadol allweddol, gan gynnwys yr IMTP • Dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol • Adroddiadau allweddol yn ymwneud â pherfformiad a chyllid sefydliadol • Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol • Polisiâu a gweithdrefnau perthnasol • Adroddiadau wedi eu paratoi gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Arolygiaeth Iechyd Cymru, Gwasanaeth Gwrth-dwyll Lleol, a chyrrff allanol perthnasol eraill.

Elfen o ddull archwilio	Disgrifiad
Cyfweliadau	<p>Gwnaethom gyfweled â'r Uwch Swyddogion ac Aelodau Annibynnol canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Cadeirydd y Bwrdd Iechyd• Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd• Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch Cleifion a Chanlyniadau• Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant• Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro• Cyfarwyddwr Dros Dro Caffael Cyllid• Cyfarwyddwr Meddygol• Cyfarwyddwr Gweithrediadau• Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad• Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol.

Atodiad 2

Ymateb rheolwyr i'r argymhellion archwilio

Arddangosyn 6: ymateb rheolwyr

Argymhelliad	Ymateb rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
Rheoli agenda / cyfarfodydd A1 Mae agendâu'r Bwrdd a Phwyllgorau yn peri i rai cyfarfodydd redeg yn hwyr. Felly, dylai'r Bwrdd lechyd adolygu agendâu'r Bwrdd a phwyllgorau i sicrhau bod modd ymdrin â busnes y cyfarfod yn yr amser sydd ar gael a hefyd caniatáu digon o graffu a thrafodaeth.	<p>Bydd datblygiad parhaus Fframwaith Sicrwydd a Fframwaith Rheoli Risg y Bwrdd yn galluogi'r Bwrdd a'r Pwyllgorau i sicrhau pwyslais ar flaenoriaeth, yn seiliedig ar risg, meysydd yn ôl eithriad, a gefnogir gan gynlluniau gwaith sy'n seiliedig ar risg.</p> <p>Bydd datblygu Ymddygiad wrth Gynnal Busnes y Bwrdd a Phwyllgor hefyd yn cefnogi mwy o effeithiolrwydd cyfarfodydd.</p>	<p>30 Medi 2023</p> <p>30 Ebrill 2023</p>	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol

Argymhelliad	Ymateb rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>Ansawdd Gwybodaeth i'r Bwrdd a phwyllgorau</p> <p>A2 Nid yw'r wybodaeth a gyflwynir i'r Bwrdd a phwyllgorau bob amser yn rhoi'r sicrwydd gofynnol. Mae rhai papurau'n rhy hir, manwl, a thechnegol. Mae adroddiadau ategol yn parhau i ddilyn fformat SBAR, ond mae amrywiaeth yn eu defnydd. Felly dylai'r Bwrdd lechyd ddatblygu hyfforddiant ac arweiniad ar gyfer staff y Bwrdd lechyd ynghylch y disgwyliadau adrodd ac ansawdd yr wybodaeth a gyflwynir i'r Bwrdd a'i bwyllgorau.</p>	<p>Bydd templedi adroddiad diwygiedig yn cael eu datblygu a'u cyflwyno ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd, gyda chanllawiau ategol.</p> <p>Bydd y ddarpariaeth o hyfforddiant ysgrifennu adroddiadau hefyd yn cael ei archwilio.</p>	30 Ebrill 2023	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol

Argymhelliad	Ymateb rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>Straeon Cleifion a Staff</p> <p>A3 Mae defnydd cyfyngedig o straeon cleifion a staff ar y Bwrdd. Dylai'r Bwrdd lechyd ystyried sut y gall gynyddu a sicrhau'r budd mwyaf o straeon cleifion a staff mewn cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau i helpu i ganoli a rhoi pwyslais i gyfarfodydd ar y pethau sydd bwysicaf, a helpu i driongli'r wybodaeth hon ag eitemau ar yr agenda ffurfiol.</p>	<p>Mae Protocol Stori Ddigidol ar gyfer straeon staff a chleifion yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac ar ôl ei gymeradwyo bydd storfa ddigidol electronig o straeon yn cael ei chreu. Mae hyfforddiant Adrodd Straeon yn Ddigidol wedi ei gomisiynu.</p> <p>Mae System Adborth Dinasyddion CIVICA yn caniatáu i bobl adael straeon wedi'u hadrodd bellach. Bydd rhai o'r rhain yn cael eu chwarae ar ddechrau pob cyfarfod Bwrdd.</p> <p>Bydd y Tîm Gweithredol yn cytuno ar raglen o straeon staff a chleifion sy'n helpu i driongli deallusrwydd ag eitemau agenda ffurfiol.</p>	31 Mawrth 2023	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrso
<p>Adrodd ar Berfformiad</p> <p>A4 Nid yw'r Adroddiad Perfformiad Integredig wedi newid ers sawl blwyddyn, ac ar hyn o bryd nid yw'n mynegi effaith gweithredoedd gwella'r gorffennol a pharhaus yn glir. Dylai'r Bwrdd lechyd gryfhau'r adroddiad hwn i ddarparu mwy o wybodaeth i'r Bwrdd a phwyllgorau ar y camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â thanberfformio neu effaith camau blaenorol a gymerwyd.</p>	<p>Datblygwyd dangosfwrdd perfformiad rhyngweithiol newydd. Mae'r Adroddiad Perfformiad Chwarterol wedi'i ddiwygio a'i ddatblygu'n adroddiad cynnydd IMTP gyda mesurau canlyniadau, mesurau perfformiad adroddadwy a'r camau a gymerwyd o ganlyniad. Mae hyn yn cynnwys mesurau Ansawdd a Diogelwch Cleifion a chanlyniadau chwarterol a chynnydd y 10 rhaglen flaenoriaeth.</p> <p>Mae'r adroddiad hwn wedi bod ar waith ar gyfer Ch1 a Ch2 a bydd y fformat yn cael ei ddarparu i'r Bwrdd ac yn parhau i gael ei adolygu.</p>	Gweithredwyd o fis Gorffennaf 2022	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad

Argymhelliad	Ymateb rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>Strategaeth Dyfodol Clinigol a'r Cynllun Clinigol Hirdymor</p> <p>A5 Mae'r Strategaeth Dyfodol Clinigol wedi aros ar waith ers dros ddegawd, ond mae'r pwysau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu wedi newid yn sylweddol yn yr amser hwn. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • adolygu'r Strategaeth Dyfodol Clinigol i sicrhau ei bod yn helpu i lunio modelau gwasanaeth cynaliadwy yn ariannol a chlinigol; ac • datblygu cynllun clinigol hirdymor manwl sy'n sail i'r Strategaeth Dyfodol Clinigol. 	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno'r Strategaeth Dyfodol Clinigol drwy ei 10 Rhaglen Blaenoriaeth Uchel a amlinellir gyda'r IMTP ac a adnewyddir yn flynyddol.</p> <p>Mae'r rhaglenni hyn yn adlewyrchu natur newidiol darparu gofal iechyd a'r heriau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu o ran y galw, newidiadau demograffig a chyflenwi'r gweithlu ac felly'n adlewyrchu'r tueddiadau cyfredol.</p> <p>Fodd bynnag, derbynnir bod angen adolygiad y strategaeth Dyfodol Clinigol hirdymor hefyd i edrych yn ehangach ac yn strategol ar strwythur a natur darparu gwasanaethau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Cynigir ffurfio adolygiad y Strategaeth dros y flwyddyn ariannol ganlynol a'i gwblhau yn 2024/25.</p>	30 Ebrill 2024	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad

Argymhelliad	Ymateb rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>Gweithio gyda phartneriaid ehangach ar ddatblygu cynllun tymor canolig integredig</p> <p>A6 Bu'r Bwrdd lechyd yn trafod cynlluniau gyda Llywodraeth Cymru a'r Cyngor lechyd Cymuned wrth ddatblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022-25, ond roedd ymgysylltu cyfyngedig â phartneriaid ehangach. Felly, dylai'r Bwrdd lechyd gynnwys partneriaid ehangach yn well i helpu ar y cyd i ddatblygu atebion i heriau gwasanaeth cynyddol, yn enwedig lle mae gwasanaethau'n rhyngweithio.</p>	<p>Mae'r Bwrdd lechyd wedi gweithredu tîm seilwaith newydd a chynllunydd corfforaethol pwrpasol i weithio gyda phartneriaid, gan gynnwys darparu cefnogaeth uniongyrchol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth i alinio cynlluniau clwstwr, cynlluniau lefel fwrdeistref a chydgyllun ardal y Bwrdd â Chynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd lechyd, gan gydnabod bod y rhain yn brosesau parhaus sy'n aeddfedu. Yn ogystal, mae'r tîm yn ymgysylltu â phartneriaid eraill fel Partneriaeth Undebau Llafur y Bwrdd lechyd a'r Cyngor lechyd Cymuned.</p>	<p>30 Ebrill 2023</p>	<p>Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad</p>

Argymhelliad	Ymateb rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
<p>Cynlluniau Dirprwyo</p> <p>A7 Mae sefyllfa ariannol ddirywiol ac arbedion dirywiol y Bwrdd lechyd yn dangos bod angen atebolwydd cryfach o ran perfformiad ariannol a chyflawni. Felly, dylai'r Bwrdd lechyd adolygu ei Gynllun Dirprwyo er mwyn sicrhau ei fod yn amlinellu atebolwydd dirprwyedig yn gryfach ar gyfer y sefyllfa gyllidebol a chyflawni arbedion ariannol ar lefelau gweithredol ac is.</p>	<p>Mae trefniadau atebolwydd presennol y Bwrdd lechyd wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ac mae'n cyd-fynd â Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.</p> <p>Mae'r Tîm Gweithredol wedi dechrau gweithio gydag uwch dîm arwain y sefydliad i ymgorffori diwylliant o rymuso, ymreolaeth, awdurdod ac atebolwydd ymhellach, gan adeiladu ar y trefniadau presennol sydd ar waith. Bydd y Fframwaith hwn yn ymdrin â phob agwedd ar fusnes y sefydliad (heb ganolbwyntio ar gyllid yn unig) a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd i'w ystyried ym mis Mawrth 2023. Ar ôl cael ei gymeradwyo, bydd angen rhagor o waith i gefnogi'r gwaith o ymwreiddio'r fframwaith yn ymarferol.</p>	<p>Cymeradwyo Fframwaith 30 Ebrill 2023</p> <p>Bydd gwreiddio'r Fframwaith yn parhau</p>	<p>Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol gyda'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad a'r Cyfarwyddwr Cyllid a Chaffael</p>



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: swyddog@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.